

C2. Annog arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud ag annog a chefnogi nodi syniadau a'u rhoi ar waith yn ymarferol ym maes eich cyfrifoldeb. Bydd y syniadau cychwynol yn dod oddi wrth bobl sy'n gweithio ym maes eich cyfrifoldeb yn bennaf, gan gynnwys chi'ch hun, a byddant yn canolbwyntio ar

- gynhyrchion a/neu wasanaethau newydd
- gwelliannau i gynhyrchion a/neu wasanaethau sydd eisoes yn bodoli
- gwelliannau i arferion, gweithdrefnau, systemau, ffyrdd o weithio ac ati sydd eisoes yn bodoli o fewn y tîm neu rai'r sefydliad ehangach neu gwsmeriaid neu gyflenwyr.

Gallai'r 'maes cyfrifoldeb' fod, er enghraifft, yn gangen neu'n adran, neu'n faes swyddogaethol neu'n safle gweithredu o fewn sefydliad.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr atebol cyntaf a rheolwyr canol.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb**, **C1. Annog arloesedd yn eich tîm** a **C3. Annog arloesedd yn eich sefydliad** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth annog arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Arweinyddiaeth
- Datrys problemau
- Meddwl yn greadigol
- Dysgu
- Cymell
- Adolygu
- Ysbrydoli
- Dadansoddi
- Gwneud penderfyniadau
- Darparu adborth
- Rheoli gwybodaeth
- Cynnwys pobl eraill
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Rheoli risg

C2. Annog arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Nodi'r dull o ymdrin ag arloesedd a lefel arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb, ac adolygu hyn o bryd i'w gilydd.
2. Cymell yr holl bobl sy'n gweithio yn eich maes i nodi syniadau ar gyfer cynhyrchion a/neu wasanaethau newydd a gwelliannau, a ffynonellau posibl eraill o syniadau, a'u hannog i rannu'r wybodaeth hon.
3. Ymateb yn frwdfrydig i syniadau oddi wrth unigolion neu dimau, a darparu adborth adeiladol.
4. Sefydlu a gweithredu dull teg ac agored o ystyried a dethol syniadau cychwynol i'w datblygu ymhellach.
5. Trafod a chytuno ar ffyrdd y gall unigolion neu dimau ddatblygu syniadau dethol ymhellach, a'u rhoi ar brawf.
6. Darparu cefnogaeth, anogaeth ac adnoddau parhaus i unigolion a thimau sy'n datblygu ac yn rhoi syniadau ar brawf ymhellach, a helpu i gael gwared ar unrhyw rwystrau a nodir.
7. Wrth drafod â'r unigolion a'r timau perthnasol, nodi'r syniadau hynny y gellir eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan ddarparu help wrth lunio a chyflwyno achosion busnes a chynlluniau sy'n cefnogi syniadau.
8. Cymeradwyo rhoi syniadau ar waith yn ymarferol, ar sail y manteision a'r risgiau a nodir a'r adnoddau gofynnol, pan fydd gennych yr awdurdod i wneud hynny.
9. Cefnogi achosion busnes a chynlluniau busnes ar gyfer syniadau y mae unigolion a thimau o'ch maes wedi'u cyflwyno i bobl eraill yn y sefydliad a rhoi gwybod am gynnydd a phenderfyniadau.
10. Recriwtio a dethol pobl greadigol ac annog a datblygu creadigrwydd pobl eraill ym maes eich cyfrifoldeb.
11. Annog unigolion a thimau yn eich maes i gymryd risgiau derbyniol wrth ddilyn trywydd arloesedd ac i wneud camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt.
12. Sicrhau bod dechreuwyr a datblygwyr unrhyw syniadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus yn derbyn cydnabyddiaeth am eu cyflawniad.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
2. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i ddefnyddio'u galluoedd i'r eithaf.
3. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
4. Byddwch yn onest, yn deg ac yn gyson wrth wneud penderfyniadau.
5. Byddwch yn ysbrydoli pobl eraill, yn cefnogi gwaith i gyflawni nodau cyffredin.
6. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
7. Byddwch yn cydbwyso risgiau â'r buddiannau a allai ddeillio o gymryd risgiau.
8. Byddwch yn mynd ati i herio'r sefyllfa sydd ohoni ac yn ceisio dod o hyd i well dewisiadau.
9. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.

C2. Annog arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Manteision arloesedd i'r sefydliad, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid eraill
2. Y gwahaniaeth rhwng creadigrwydd ac arloesedd
3. Sut i nodi'r dull cyfredol o ymdrin ag arloesedd mewn maes penodol a lefel arloesedd yn y maes hwnnw, gan gynnwys unrhyw gryfderau y gellir adeiladu arnynt, unrhyw wendidau y mae angen ymdrin â nhw ac unrhyw rwystrau i arloesedd y mae angen cael gwared arnynt
4. Sut i ddethol a defnyddio gwahanol dulliau o gymell pobl i gynhyrchu a datblygu syniadau
5. Y gwahanol ffynonellau posibl o syniadau ar gyfer cynhyrchion a/neu wasanaethau newydd a gwelliannau
6. Pwysigrwydd cyfathrebu wrth arloesi a sut i annog cyfathrebu ym maes eich cyfrifoldeb drwyddo draw
7. Y rhwystrau posibl i greadigrwydd ac arloesedd, p'un a gellir cael gwared arnynt ac, os gellir, sut y gellir gwneud hynny
8. Cyfnodau allweddol yn y broses greadigol
9. Cyfnodau allweddol yn y broses arloesi
10. Sut i ddarparu adborth adeiladol ar syniadau i dimau ac unigolion
11. Sut i sefydlu a gweithredu dulliau teg ac agored o ddethol syniadau cychwynol i'w datblygu ymhellach, gan gynnwys rhoi rhesymau pam nad yw rhai syniadau'n cael eu datblygu
12. Yr amrywiaeth o ffyrdd y gellir datblygu syniadau cychwynol ymhellach a'u rhoi ar brawf, gan gynnwys gosod canllawiau neu bamedrau ar gyfer defnyddio adnoddau, lefel y risg derbyniol ac adrodd ar gynnydd
13. Sut i adnabod a rheoli risg wrth arloesi
14. Sut i ddatblygu achos busnes a chynlluniau busnes i roi syniad ar waith yn ymarferol a sut i gefnogi eraill wrth iddynt wneud hyn
15. Rhinweddau/nodweddion/galluoedd pobl greadigol a sut i adnabod y rhain
16. Sut i ddatgloi creadigrwydd yn eich hun ac ym mhobl eraill
17. Yr adnoddau gofynnol ar gyfer creadigrwydd ac arloesedd, yn arbennig amser

18.Sut i ddysgu oddi wrth gamgymeriadau

19.Sut i adnabod cyflawniadau dechreuwyr/datblygwyr syniadau a roddwyd ar waith yn llwyddiannus

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Y sector(au) mae'ch sefydliad yn gweithio ynddo/ynddynt
2. Ffynonellau gwybodaeth am arloesedd yn eich sector(au)
3. Datblygiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, amgylcheddol a chyfreithiol, yn rhai cyfredol ac yn rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector(au) ac mewn sectorau cysylltiedig

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Strategaeth eich sefydliad ar gyfer arloesedd, os oes ganddo un
2. Y dull o ymdrin ag arloesedd ym maes eich cyfrifoldeb a lefel yr arloesedd ynddo
3. Rôl arloesedd yn niwylliant eich sefydliad
4. Canllawiau a gweithdrefnau cyfundrefnol ar gyfer datblygu a gweithredu syniadau
5. Terfynau'ch awdurdod
6. Anghenion eich cwsmeriaid